Ysgol Gymraeg Cwm Nedd

Stryd Newydd
Glyn-nedd
Castell-nedd
SA11 5AG

New Street
Glynneath
Neath
SA11 5AG

Ffôn/Tel: 01639 720530
Ffacs/Fax: 01639 729175
E-bost/E-mail: yggcwmnedd@npt.school
https://ygg-cwm-nedd.j2bloggy.com/

Annwyl riant/gwarchodydd,
Diolch i chi am eich cefnogaeth parhaus yn ystod y chwe mis diwethaf. Yn dilyn cyhoeddiad canllawiau diweddaraf llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol, gallaf gadarnhau trefniadau terfynol ailagor Ysgol Gymraeg Cwmnedd ym mis Medi. Mae Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol wedi gosod canllawiau caeth ac asesiadau risg cadarn y mae'n rhaid i'r ysgol lynu wrthynt er mwyn cadw ein disgyblion a'n staff yn ddiogel.

Rydym yn gwerthfawrogi y bydd gan deuluoedd eu hamgylchiadau eu hunain i'w hystyried cyn i blant ddychwelyd i'r ysgol ac efallai y bydd rhai ohonoch yn cysgodi ac yn amddiffyn aelodau'r teulu. Rydym hefyd yn deall y gallai llawer ohonoch fod yn bryderus am i'ch plentyn / plant ddychwelyd i'r ysgol er y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud yr ysgol mor ddiogel â phosibl. Erbyn Medi'r 14eg, mae disgwl i **bob** plentyn fod yn mynychu'r ysgol. Os nad yw hyn yn bosib, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosib gyda'r rhesymau dros hyn.

Bydd gan yr ysgol dau ddiwrnod paratoi – Medi'r 1af a'r 2ail, ar gyfer hwn. Felly bydd tymor y plant yn dechrau ar **ddydd Iau Medi'r 3ydd**. Bydd y blynyddoedd derbyn, un a dau yn dod mewn yn raddol i'r ysgol er mwyn eu cefnogi dros y pythefnos gyntaf, ond disgwylir i flynyddoedd tri i chwech ddychwelyd yn syth.

Er mwyn sicrhau bod cyn lleied o bobl â phosibl yn yr ysgol, ni fydd rhieni na gofalwyr yn gallu dod i dir yr ysgol na swyddfa'r ysgol a byddwn yn gofyn i'r cyfathrebu barhau i fod dros y ffôn ac e-bost. Er mwyn amddiffyn y gymuned, byddwn yn gweithredu amseroedd cychwyn a gorffen cyfnodol caeth ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn. Bydd gennym oedolion ysgol ar y gatiau i gefnogi arferion mynediad ac allanfa diogel. Gofynnwn ichi wneud hyn mor brydlon â phosibl er mwyn sicrhau y cedwir at bellter cymdeithasol. Gyda mwy o ddisgyblion ar y safle, bydd angen i ni ofyn am eich amynedd gan fod y gweithdrefnau hyn yn debygol o gymryd ychydig o amser ond yn y pen draw byddant yn amddiffyn eich plant.

Gweler amseroedd dechrau pob dosbarth isod. Rydych **wedi** derbyn text o'r ysgol yn cadarnhau pa grwp bydd eich plentyn ar ddiwedd tymor yr Haf. Bydd yn bwysig iawn bod eich plant yn cyrraedd mewn pryd ac o fewn yr amser penodedig. Rydym hefyd yn cynghori bod **un** rhiant neu ofalwr yn gollwng ac yn casglu eich plentyn/plant, er mwyn cadw cyn lleied â phosib o bobl ar Stryd Newydd.

Trefniadau mynediad newydd

Dosbarth		**Amser dechrau**	**Amser gorffen**	**Gât**
Dosbarth Meithrin		9:40 – 9:50	11:30	Gât top
Dosbarth Derbyn	Grwp 1	8:50	3:00	Gât gwaelod
	Grwp 2	9:00	3:10	
	Grwp 3	9:10	3:20	
Dosbarth Blwyddyn 1 a 2	Grwp 1	8:30	2:40	Gât gwaelod
	Grwp 2	8:40	2:50	
Dosbarth Blwyddyn 3, 4, 5	Grwp 1	8:50	3:20	Gât top
	Grwp 2	9:00	3:30	
Dosbarth Blwyddyn 5 a 6	Grwp 1	8:30	3:00	Gât top
	Grwp 2	8:40	3:10	

Amseroedd cinio ac egwyl
Bydd amser cinio ac amseroedd egwyl hefyd yn edrych yn wahanol i'r plant. Byddwn yn sicrhau gan bob blwyddyn amseroedd chwarae a chinio ar wahan. Bydd y ardal awyr agored yn cael ei ddefnyddio ar sail rota gan bob blwyddyn ac unrhyw offer yn cael ei lanhau cyn y pwynt newid. Cynyddwyd arferion glanhau a bydd pob oedolyn yn sicrhau bod mesurau newydd ar gyfer glanhau'r safle a'r offer yn cael eu cynnal. Bydd y plant yn defnyddio gofod awyr agored mor aml â phosibl gan ein bod yn gwybod, bod y tu allan yn cael ei annog o fewn y mesurau diogelwch.

Hylendid da
Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff a phlant yn golchi eu dwylo â sebon a dŵr yn rheolaidd am o leiaf 20 eiliad, a'u bod yn deall technegau golchi dwylo effeithiol. Bydd golchi dwylo yn rheolaidd yn cynnwys wrth gyrraedd ac wrth adael yr ysgol; cyn ac ar ôl trin bwyd; cyn ac ar ôl trin gwrthrychau ac offer a allai fod wedi cael eu defnyddio gan eraill; lle bu unrhyw gyswllt corfforol ac ar ôl i bobl chwythu eu trwyn, tisian neu beswch.

Unwaith y bydd plant yn ôl yn yr ysgol, bydd yr holl arwynebau, offer, dolenni drysau a thoiledau a gyffyrddir yn aml yn cael eu glanhau yn drylwyr trwy gydol y dydd. Mae gennym aelod (au) staff hyfforddedig sy'n gallu cyflawni'r gweithgaredd hwn. Rydym wedi gwneud y dosbarthiadau mor hawdd i'w glanhau â phosibl. Gyda hyn mewn golwg mae'n bwysig iawn bod plant yn dod â phethau angenrheidiol yn unig i’r ysgol; potel ddŵr a blwch cinio âg enwau arnynt a chas pensiliau i’w gadw yn yr ysgol. Rhaid gosod eli haul cyn gadael cartref bob dydd gan na fyddwn yn gallu gwneud hyn yn yr ysgol. Mae hyrwyddo arferion hylendid da, gan gynnwys golchi dwylo'n rheolaidd, yn rhan o'r diwrnod ysgol a bydd yr athrawon yn eu goruchwylio.

Clwb brecwast
Bydd clwb brecwast yn ailddechrau ddydd Llun y 14eg o Fedi. Oriau clwb brecwast yw 8:05 - 8:25. Bydd angen gollwng plant wrth gât waelod yr ysgol. Bydd clybiau ar ôl ysgol yn cael eu hatal hyd y gellir rhagweld. Bydd y penderfyniad hwn yn parhau i gael ei adolygu a bydd newidiadau yn cael eu gwneud yn unol â hynny.

Gwisg ysgol
Bydd disgwyl i’r plant wisgo gwisg ysgol. Rydym yn gofyn iddynt gael eu golchi ar ddiwedd pob diwrnod ysgol, gyda'r plant yn dychwelyd mewn dillad ffres bob dydd a fydd eto'n lleihau'r risg o haint. Mae'n bwysig bod y plant yn gwisgo esgidiau'n priodol ar gyfer gweithgareddau awyr agored; gall esgidiau amhriodol olygu na fydd plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd.

Taliadau
Dim ond trwy ‘Parent Pay’ y dylid talu arian cinio. Bydd **angen talu** am ginio ysgol. Ni fydd arian yn cael ei gasglu. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i wneud taliadau BACS i deuluoedd disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim tan ddydd Gwener, 11eg Medi. Yn ystod y pythefnos cyntaf bydd disgwyl i ddisgyblion pyadd sy'n bresennol dalu am brydau ysgol.

Dosbarthiadau
Yn flaenllaw yn y canllawiau newydd mae'r penderfyniad i gadw pob disgybl o fewn 'podiau dosbarth'. Gwelir y podiau hyn disgyblion yn gweithio ac yn chwarae gyda'i gilydd o fewn y dosbarth ac ar yr iard, a hefyd yn bwyta eu cinio gyda'i gilydd. Ni fyddant yn cymysgu â'u cyfoedion o ddosbarthiadau eraill ar unrhyw adeg yn ystod y dydd. Er y bydd pob disgybl yn cael ei annog i ymarfer arferion hylendid da a chynnal pellter rhesymol oddi wrth y disgyblion eraill o fewn eu pod, derbynnir y bydd ymbellhau cymdeithasol yn anodd iawn ei gynnal mewn amgylchedd ystafell ddosbarth. Fel y nodwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, *"Rydym yn cydnabod na fydd dysgwyr ifanc yn gallu cynnal ymbellhau cymdeithasol, ac mae'n dderbyniol iddynt beidio ag ymbellhau o fewn eu grŵp".* Byddem hefyd yn gofyn ichi gadw polisi pellhau cymdeithasol y llywodraeth wrth i chi deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn ogystal â gadael y safle a'r ardal gyfagos cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn ein helpu i gadw pawb mor ddiogel ag y gallwn.

Gorchuddion Wyneb
Cyngor presennol Prif Swyddog Meddygol Cymru yw nad oes angen gorchuddion wyneb ar ddisgyblion cynradd. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd yn teithio i'r ysgol ar fws.

Fel y gallwch weld, bydd bywyd ysgol yn edrych yn wahanol am gyfnod. Bydd yr her o groesawu pob disgybl yn ôl i'r ysgol ym mis Medi yn un sylweddol. Fodd bynnag, trwy gydweithio a pharchu y mesurau sydd wedi eu gosod yn eu lle i sicrhau iechyd, diogelwch a lles pob aelod o gymuned yr ysgol, rwy'n ffyddiog y byddwn ni'n llwyddiannus yn cwrdd â'r her hwnnw.

Gobeithio eich bod chi i gyd yn iach ac yn cadw'n ddiogel. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi ym mis Medi!

Yn ddiffuant

Mrs Evans

Dilynwch ni ar Trydar/*Follow us on Twitter* @yggcwmnedd

Â dawn fe gawn ein geni
A'n hawl yw ei meithrin hi